Archwilio Cymru
Audit Wales

# Defnyddio gwybodaeth am berfformiad: safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau – Cyngor Sir Ddinbych

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3811A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai’r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â’r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio’r ddogfen hon i Archwilio Cymru swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Crynodeb o'r adroddiad 4

Yr hyn yr edrychom ni arno – cwmpas yr archwiliad hwn 4

Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn 5

Trefniadau'r Cyngor ar gyfer adrodd ar berfformiad 5

Yr hyn a ganfuom 6

Rhoddir rhywfaint o wybodaeth i uwch arweinwyr sy'n eu helpu i ddeall canlyniadau ei weithgareddau a safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, ond mae'r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth yn gyfyngedig ar gyfer rhai o amcanion newydd y Cyngor

Argymhellion 10

Atodiadau

Atodiad 1: Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano 11

# Crynodeb o’r adroddiad

1 Gwnaethom ystyried safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a’r wybodaeth am ganlyniadau a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr), a sut y defnyddir yr wybodaeth hon.

2 At ei gilydd, canfuom y darperir rhywfaint o wybodaeth am berfformiad i uwch arweinwyr yng Nghyngor Sir Ddinbych (y Cyngor) i’w galluogi i ddeall canlyniadau eu gweithgareddau a safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, ond mae’r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth yn gyfyngedig ar gyfer rhai o amcanion newydd y Cyngor.

3 Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i gryfhau’r wybodaeth a roddir i uwch arweinwyr.

# Yr hyn yr edrychom ni arno – cwmpas yr archwiliad hwn

4 Gwnaethom ganolbwyntio ar yr wybodaeth am berfformiad a ddarparwyd i uwch swyddogion ac uwch aelodau (uwch arweinwyr) ynghylch safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau, a sut y caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio. Ni wnaethom gynnal adolygiad llawn o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor nac adolygiad manwl o ansawdd y data y mae'r Cyngor yn ei gasglu. Ni chanolbwyntiodd yr adolygiad ychwaith ar ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau ynghylch newidiadau penodol i wasanaethau nac ynghylch datblygu polisïau a strategaethau.

5 Rydym wedi nodi ein cwestiynau archwilio a'n meini prawf archwilio yn **Atodiad 1**. Mae'r meini prawf archwilio yn nodi beth yw ‘da’ a’r hyn y byddem yn disgwyl ei ganfod.

6 Ar y cyfan, roeddem yn ceisio canfod a oedd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei rhannu ag uwch arweinwyr i'w helpu i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau, a pha mor dda y maent yn helpu'r Cyngor i gyflawni'r canlyniadau y mae'n gweithio tuag atynt. Roeddem hefyd yn ceisio canfod a oedd uwch arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon i fonitro cynnydd a gweithredu lle bo angen i wella canlyniadau.

7 Mae hyn yn rhan bwysig o drefniadau i sicrhau bod cynghorau'n sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio eu hadnoddau. Mae hefyd yn ffordd bwysig y gall y Cyngor sicrhau ei hun ei fod yn gweithredu yn unol â'r dull 'ymgysylltu' o weithio wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant. Heb yr wybodaeth hon, mae'n anodd gweld sut y gall uwch arweinwyr ddeall a yw eu polisïau a'u gweithredoedd yn cael yr effaith a fwriedir a gwneud newidiadau pan nad yw hyn yn digwydd.

8 Mae ein canfyddiadau yn seiliedig ar adolygiadau o ddogfennau a chyfweliadau gydag Aelod y Cabinet, y Cyfarwyddwr ac uwch swyddogion sy’n gyfrifol am

drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd gennym i lywio ein canfyddiadau wedi'i chyfyngu i'r ffynonellau hyn. Gwnaethom y gwaith hwn yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2023.

9 Aethom ati i ateb y cwestiwn **'A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol?'** Rydym wedi gwneud hyn drwy archwilio'r cwestiynau canlynol:

- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau?
- A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau'r Cyngor?
- A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir?
- A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau?
- A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau?

# Pam y gwnaethom gynnal yr archwiliad hwn?

10 Cynhaliwyd yr archwiliad hwn i helpu i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) ac adran 15 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

11 Gwnaethom geisio:

- cael sicrwydd bod y wybodaeth am berfformiad y mae'r Cyngor yn ei darparu i uwch swyddogion ac aelodau etholedig yn eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniad ei weithgareddau;
- cael sicrwydd bod y wybodaeth hon yn ffurfio rhan o drefniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy;
- nodi cyfleoedd i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau.

# Trefniadau'r Cyngor ar gyfer adrodd ar berfformiad

12 Mae'r Cyngor yn monitro ac yn rheoli perfformiad drwy'r mecanweithiau canlynol:

- Mae'r Cabinet a'r pwyllgor Craffu Perfformiad (ynghyd â'r Tîm Gweithredol Corfforaethol a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth) yn derbyn adroddiadau diweddaru perfformiad chwarterol ar y cynnydd gyda'r amcanion llesiant a gwybodaeth monitro ariannol.
- Mae gwasanaethau yn adrodd ar eu perfformiad yn flynyddol o fewn Rhaglen Herio Perfformiad Gwasanaeth y Cyngor ac yn monitro cynnydd yn erbyn Amcanion Corfforaethol gerfydd adroddiadau perfformiad chwarterol.

- Mae’r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn cael trosolwg chwarterol o ganmoliaeth, awgrymiadau a chwynion a gafwyd o dan bolisi adborth cwsmeriaid y Cyngor; ‘Eich Llais’.
- Mae’r Tîm Gweithredol Corfforaethol ac arweinwyr portffolio yn derbyn nifer o adroddiadau blynyddol statudol, megis hunanasesiad corfforaethol blynyddol y Cyngor ac adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

13 Canolbwyntiodd ein hadolygiad ar y mecanweithiau adrodd ar berfformiad allweddol hyn.

# Yr hyn a ganfuom

## Rhoddir rhywfaint o wybodaeth i uwch arweinwyr sy’n eu helpu i ddeall canlyniadau eu gweithgareddau a safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, ond mae’r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth yn gyfyngedig ar gyfer rhai o amcanion newydd y Cyngor

### Rhoddir rhywfaint o wybodaeth i uwch arweinwyr sy’n eu galluogi i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth, ond mae’r wybodaeth hon yn gyfyngedig ar gyfer rhai o amcanion corfforaethol newydd y Cyngor

14 At ei gilydd, gwelsom rai enghreifftiau o wybodaeth am berfformiad yn adroddiadau hunanasesu chwarterol y Cyngor ac adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, sy’n helpu uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau.

15 Mae adroddiadau hunanasesu chwarterol y Cyngor yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth a fyddai’n galluogi uwch arweinwyr i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion ei ddefnyddwyr gwasanaeth, ond nid oedd hyn yn gyson ar draws holl amcanion y Cyngor. Gwelsom fod bron i chwarter y mesurau a restrwyd yn yr adroddiadau yn ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r Cyngor yn cynnal arolwg rhanddeiliaid blynyddol sy'n bwydo i mewn i'r adroddiadau chwarterol a'i hunanasesiad blynyddol.

16 Mabwysiadodd y Cyngor gynllun corfforaethol newydd ym mis Hydref 2022 ac mae mewn cyfnod o drawsnewid gydag adrodd yn erbyn y cynllun newydd. Er bod llawer o'r wybodaeth am berfformiad a gynhwyswyd yn yr adroddiadau chwarterol a welsom dal i ymwneud â'r cynllun corfforaethol blaenorol, roedd yr adroddiad olaf ar gyfer 2022-23 a ddarparwyd i uwch arweinwyr ym mis Mehefin a Gorffennaf 2023, yn cynnwys mesurau a oedd yn berthnasol i’r amcanion newydd yn uniongyrchol. Mae’r mesurau hyn yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth am safbwynt

defnyddwyr gwasanaeth, ond i raddau llai na'r wybodaeth a adroddwyd amdani yn yr adroddiadau chwarterol blaenorol.

17 Ar adeg ein gwaith maes, nid oedd y Cyngor wedi cytuno pob un o'r mesurau y byddai'n eu defnyddio i'w helpu i ddeall cynnydd gyda thri o'r naw amcan llesiant. Mae hyn yn cyfyngu ar werth a pherthnasedd y wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr er mwyn deall safbwynt defnyddwyr gwasanaeth mewn perthynas ag amcanion presennol y Cyngor. Mae gan y Cyngor gyfle i edrych eto ar ei wybodaeth am berfformiad i sicrhau bod hyn yn galluogi uwch arweinwyr i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o safbwynt y defnyddwyr gwasanaethau. Mae cael y wybodaeth hon yn rhan allweddol o'r trefniadau i allu deall a yw gweithgareddau a pholisïau'r Cyngor yn diwallu anghenion ei ddefnyddwyr gwasanaethau ac yn rhoi gwerth am arian.

18 Mae adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2021-22 yn cynnwys rhai enghreifftiau da o wybodaeth a fyddai'n helpu uwch arweinwyr i ddeall sut yr oedd defnyddwyr yn cael polisïau a gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor. Mae'r adroddiad yn cynnwys adborth o'r arolwg 'Dweud eich Dweud' a gwblhawyd gan blant, pobl ifanc a'u rhieni ac adborth gan ofalwyr maeth. Gallai'r Cyngor fyfyrio ar sut y gallai ddysgu o gael y math hwn o wybodaeth er mwyn helpu i gryfhau'r wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau mewn meysydd gwasanaeth eraill.

19 Gan i ni weld bod y Cyngor yn darparu rhywfaint o wybodaeth am farn defnyddwyr gwasanaethau i uwch arweinwyr, gwnaethom archwilio a oedd y wybodaeth hon yn deillio o amrywiaeth y defnyddwyr gwasanaethau. Canfuom fod y Cyngor yn cynnwys yr arolwg rhanddeiliaid blynyddol a'r arolygon a gyhoeddwyd gan rai meysydd gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth yn y data crai ar grwpiau demograffig yr ymatebwyr a'u nodweddion gwarchodedig. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn dadansoddi'r wybodaeth hon felly ni all sicrhau ei hun ei fod yn deall safbwynt ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Mae'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn eu galluogi i ddeall canlyniadau rhai o weithgareddau'r Cyngor, er bod hyn yn canolbwyntio ar ganlyniadau tymor byr, yn hytrach na chanlyniadau tymor canolig a hir

20 Mae'r wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor yn chwarterol i'w uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth a fyddai o gymorth iddynt asesu a deall canlyniadau gweithgareddau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r wybodaeth i raddau helaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd dros y tymor byr, yn bennaf yn chwarterol ac yn flynyddol. Heb wybodaeth am ei gynnydd yn erbyn cerrig milltir tymor hwy, bydd yn anodd i uwch arweinwyr asesu cynnydd dros y tymor canolig a'r hirdymor.

21 Mae'r Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i helpu arweinwyr i ddeall canlyniadau ei weithgareddau ac yn helpu i roi darlun cyfannol o'i berfformiad. Mae hyn yn cynnwys mesurau ar sut mae'r wasg yn gweld y Cyngor

ac astudiaethau achos mewn adroddiadau. Er enghraifft, mae astudiaeth achos ar unigolyn a oedd wedi elwa ar y gwasanaeth llywio cymunedol a rhagnodi cymdeithasol o fewn adroddiad diweddaru chwarterol. Gall astudiaethau achos fel hyn a data ar erthyglau newyddion cadarnhaol a negyddol helpu uwch arweinwyr i ddeall effaith gweithgareddau'r Cyngor, ond efallai na fyddant yn rhoi darlun cynrychioliadol a chynhwysfawr o berfformiad.

## Mae gan y Cyngor drefniadau cyfyngedig i sicrhau bod y wybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau a ddarperir i uwch arweinwyr yn gywir

22 Mae trefniadau'r Cyngor i sicrhau cywirdeb data safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau yn ei wybodaeth am berfformiad yn gyfyngedig. Mae gan y Cyngor swyddog cyswllt o fewn y tîm perfformiad corfforaethol ar gyfer pob un o'r gwasanaethau, ac mae gan y gwasanaethau swyddog data penodol neu gydweithiwr arall sy'n darparu'r data perfformiad i'r tîm corfforaethol. Mae'r unigolion hyn yn 'gwirio'r' data, hynny yw, maent yn gwirio bod amrywiadau o'r lefelau perfformiad a ragwelir yn cael eu hesbonio. Fodd bynnag, nid yw'r swyddogion hyn yn gwirio cywirdeb y data safbwynt defnyddwyr gwasanaethau fel rheol.

23 Mae'r Cyngor yn defnyddio cyfleuster yn ei feddalwedd gwybodaeth perfformiad i ddisgrifio'r dull o goladu'r data a'r uned fesuriadau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cwmpasu gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau.

24 Nid yw gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor wedi cynnal unrhyw adolygiadau ansawdd data yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

25 Felly, yn gyffredinol, nid oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i aelodau am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau yn gywir. O ganlyniad, mae risg y gellir gwneud penderfyniadau a chymryd camau gweithredu, a defnyddio adnoddau ar sail gwybodaeth anghywir.

## Lle mae gan y Cyngor wybodaeth am safbwyntiau defnyddwyr gwasanaethau, fe'i defnyddir i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau drwy ymateb i adborth pan nodir perfformiad gwael

26 Canfuom fod y Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau sydd ganddo i'w helpu i nodi pa welliannau a newidiadau sydd eu hangen. Roedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau yn newidiadau a wnaed ar ôl nodi perfformiad gwael, megis gyda digonolrwydd y broses gwyno ei hun. Mae hyn yn dangos bod y Cyngor yn mynd ati i gymryd i ystyriaeth safbwynt defnyddwyr gwasanaethau lle mae ganddo'r wybodaeth hon.

## Mae’r cyngor wedi nodi bod angen iddo adolygu ei fesurau canlyniadau

27 Mae'r Cyngor eisoes wedi nodi bod angen iddo edrych am fylchau yn ei fesurau canlyniadau a neilltuo perchennog ar gyfer pob mesur.

28 Nid yw'r Cyngor yn cymharu'r math o wybodaeth y mae'n ei chasglu na'r dulliau casglu o safbwynt neu ganlyniadau defnyddwyr gwasanaethau â'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg. Nid ydym yn golygu cymharu perfformiad fel y cyfryw, ond yn hytrach ei helpu i ddysgu sut mae sefydliadau eraill yn darparu gwybodaeth am safbwyntiau a chanlyniadau defnyddwyr gwasanaethau er mwyn helpu i gryfhau eu trefniadau eu hunain. Mae hon yn elfen bwysig o drefniadau i sicrhau gwerth am arian.

# Argymhellion

**Arddangosyn 1: argymhellion**

| | |
|---|---|
| **Gwybodaeth am safbwynt defnyddwyr gwasanaethau** | |
| A1 | Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth y mae'n ei darparu i'w uwch arweinwyr i'w galluogi i ddeall pa mor dda y mae gwasanaethau a pholisïau yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau yn berthnasol i'w gynllun corfforaethol newydd. Dylai hyn gynnwys cryfhau ei drefniadau er mwyn sicrhau ei hun bod y wybodaeth hon yn dod oddi wrth ystod amrywiol o ddefnyddwyr gwasanaethau |
| **Gwybodaeth am gynnydd tuag at ganlyniadau** | |
| A2 | Dylai'r Cyngor gryfhau'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i'w helpu i werthuso a yw'r Cyngor yn cyflawni ei amcanion a'i ganlyniadau a fwriadwyd dros y tymor canolig a hwy. |
| **Gwybodaeth am ansawdd a chywirdeb data** | |
| A3 | Mae angen i'r Cyngor sicrhau ei hun fod ganddo drefniadau cadarn i wirio ansawdd a chywirdeb y wybodaeth y mae'n ei darparu i uwch arweinwyr yn ymwneud â safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau. |

# Atodiad 1

## Cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano

**Arddangosyn 2: cwestiynau allweddol a'r hyn yr oeddem yn chwilio amdano**

Mae'r tabl isod yn nodi'r cwestiwn yr oeddem yn ceisio ei ateb wrth gynnal yr archwiliad hwn, ynghyd â'r meini prawf archwilio a ddefnyddiwyd gennym i gyrraedd ein canfyddiadau.

| **Lefel 1** | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio[1] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.1 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am safbwynt defnyddwyr gwasanaeth? | • Mae'r wybodaeth:<br>– yn berthnasol i amcanion y mae'r Cyngor wedi'u gosod iddo'i hun;<br>– yn ddigon i alluogi dealltwriaeth o safbwynt y defnyddwyr gwasanaethau;<br>– yn ddigon i ddarparu dealltwriaeth o gynnydd tuag at y canlyniadau y mae'r Cyngor yn bwriadu eu cyflawni;<br>– yn deillio o amrywiaeth o ddefnyddwyr gwasanaethau gan gynnwys grwpiau sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig;<br>• Mae'r Cyngor wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau wrth benderfynu pa wybodaeth i'w chasglu. |

[1] Mae ein meini prawf archwilio wedi'u llywio gan ein gwybodaeth gronnol o waith archwilio blaenorol, yn ogystal â'r hierarchaeth cwestiynau a'r dangosyddion cadarnhaol yr ydym wedi'u datblygu i gefnogi ein harchwiliadau egwyddor datblygu cynaliadwy.

| **Lefel 1** | |
|---|---|
| A yw data perfformiad y Cyngor yn galluogi uwch arweinwyr i ddeall safbwynt defnyddwyr gwasanaethau a chanlyniadau ei weithgareddau i reoli ei berfformiad yn effeithiol? | |
| **Lefel 2** | **Meini Prawf Archwilio[1] (yr hyn yr ydym yn chwilio amdano)** |
| 2.2 A yw'r wybodaeth am berfformiad a ddarperir i uwch arweinwyr yn cynnwys gwybodaeth briodol am ganlyniadau gweithgareddau'r Cyngor? | • Mae'r wybodaeth yn defnyddio amrywiaeth o ffynonellau tystiolaeth i roi golwg gyfannol ar gynnydd.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro cynnydd yn y tymor byr, canolig a hir.<br>• Mae'r wybodaeth yn galluogi uwch arweinwyr i fonitro'r ddarpariaeth o ganlyniadau sy'n cwmpasu sawl maes gwasanaeth a/neu sefydliad. |
| 2.3 A oes gan y Cyngor drefniadau cadarn i sicrhau bod y data a ddarperir yn gywir? | • Mae gan y Cyngor drefniadau clir i wirio ansawdd a chywirdeb y data y mae'n ei ddarparu i uwch arweinwyr.<br>• Lle nodir gwendidau o ran ansawdd data, mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â nhw. |
| 2.4 A yw'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i'w helpu i gyflawni ei ganlyniadau? | • Lle nodir perfformiad gwael, mae'r Cyngor yn defnyddio'r wybodaeth i wneud newidiadau/ymyriadau.<br>• Mae tystiolaeth bod y Cyngor yn gwella ei gynnydd tuag at ganlyniadau o ganlyniad i ymyriadau. |
| 2.5 A yw'r Cyngor yn adolygu effeithiolrwydd ei drefniadau? | • Mae'r Cyngor yn adolygu'r wybodaeth a ddarperir i uwch arweinwyr i sicrhau ei bod yn briodol ac yn berthnasol.<br>• Mae'r Cyngor yn cymharu'r wybodaeth y mae'n ei chasglu gyda'r wybodaeth a gesglir gan sefydliadau tebyg i nodi cyfleoedd i gryfhau ei drefniadau. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Cwr y Ddinas

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.